Hysbysiad Preifatrwydd

Cyflwyniad

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwn fel "CICAB", "ni", neu "ein") yn trin eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd o ddifrif. Rydym yn cydymffurfio â phob agwedd ar fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r DU, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018.

Wrth gynnal ein swyddogaethau statudol sy'n cynnwys craffu ar wasanaethau iechyd yn ein hardal, ymgysylltu â chyrff y GIG o ran cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd yn ein hardal a darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i'r cyhoedd, efallai y byddwn yn casglu amrywiaeth o wybodaeth bersonol gennych.

Rydym wedi datblygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn er mwyn bod mor dryloyw â phosibl am yr wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a'i defnyddio.

A yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i ysgrifennu er budd y categorïau canlynol o bobl (y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad hwn fel "chi"):

- Ein haelodau;
- Cleientiaid eiriolaeth a phobl sy'n cynrychioli neu'n cyd-fynd â nhw;

- Teulu a ffrindiau cleientiaid eiriolaeth os ydynt wedi darparu unrhyw wybodaeth yng nghwrs y broses eiriolaeth;
- Unrhyw un arall sy'n cael ei adnabod mewn cofnodion gwasanaeth eiriolaeth, er enghraifft gweithwyr gofal iechyd proffesiynol;
- Achwynwyr sydd wedi cyflwyno cwyn yn ein herbyn;
- Pobl sy'n derbyn diweddariadau, gwybodaeth neu wahoddiadau i'n digwyddiadau ni a'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath;
- Pobl sy'n ymweld â'n gwefan;
- Ein rhanddeiliaid, grwpiau diddordeb a chysylltiadau eraill ynghyd â phobl sy'n gweithio iddyn nhw;
- Unigolion eraill sy'n cysylltu â ni am wybodaeth;
- Cyflenwyr yr ydym yn eu defnyddio;
- Ein hyswirwyr, ein harchwilwyr a'n cynghorwyr proffesiynol; a
- Llywodraeth Cymru, GIG neu gyrff cyhoeddus eraill a'r rhai sy'n gweithio iddyn nhw.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i bobl sy'n gweithio i ni ar hyn o bryd, wedi gweithio i ni neu sydd â diddordeb mewn gweithio i ni. Rydym wedi ysgrifennu hysbysiad preifatrwydd ar wahân i'r grŵp hwn.

Os ydych yn credu ein bod yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ond nad ydych wedi eich cynnwys yn y rhestr uchod, cysylltwch â ni i drafod hyn.

Beth mae'r Hysbysiad hwn yn ei Gynnwys?

Gofynnwn i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am:

- yr wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a'i defnyddio;
- y seiliau cyfreithlon yr ydym yn dibynnu arnynt i'w chasglu a'i defnyddio;
- pam rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol;
- o ble cawn y wybodaeth bersonol;
- gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth bersonol;
- pan fyddwn yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU;
- am ba hyd yr ydym yn cadw gwybodaeth a sut rydym yn sicrhau ei fod yn ddiogel; ac
- eich hawliau preifatrwydd.

Dylech sicrhau eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd cyffredinol hwn ochr yn ochr ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd penodol y gallwn ei roi i chi, o bryd i'w gilydd, mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Rheolwr Data

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw gan CICAB fel Rheolwr Data neu weithiau'r CIC a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ("y Bwrdd") fel cyd-reolwyr. Rydym wedi penodi Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth penodol (SLlG) i sicrhau goruchwyliaeth briodol o'n gweithgareddau prosesu data. Y

SLlG yw Claire Starmore yw'r Rheolwr Busnes. Gall yr SLlG, dan arweiniad y Swyddog Diogelu Data (SDD) Jemma Morgan, y Prif Swyddog, roi unrhyw eglurder sydd gennych am yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Manylion cyswllt isod:

Claire Starmore
Rheolwr Fusnes
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Raglan
6-8 Clôs William Brown
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbran NP44 3AB
Ffôn: 01633 833 516
Ebost: claire.starmore@wales.nhs.uk

Categorïau o Wybodaeth Bersonol sydd gennym

Mae'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chasglu gennych yn cynnwys:

- Gwybodaeth sylfaenol, fel eich enw (gan gynnwys rhagddodiad enw neu deitl), y cwmni rydych chi'n gweithio iddo, eich teitl neu eich swydd a'ch perthynas â pherson.
- gwybodaeth gyswllt, fel eich cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif(au) ffôn.
- dewisiadau cyfathrebu, er enghraifft efallai y byddwch yn dymuno cyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg.

- uniaethiad a gwybodaeth gefndirol a ddarperir gennych chi. Gall hyn gynnwys dyddiad geni, cenedligrwydd a chyfeiriadau blaenorol.
- lle rydych chi'n gleient eiriolaeth, byddwn yn casglu gwybodaeth am eich amgylchiadau sydd wedi achosi i chi ddymuno defnyddio ein gwasanaethau. Gall hyn gynnwys data categori arbennig lle mae hyn yn berthnasol i'r mater yr ydym yn gweithio arno i chi. Rydym hefyd yn cadw cofnodion am eich cyswllt â ni.
- os ydych chi'n ymwneud ag un o'n materion eiriolaeth, byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch sy'n berthnasol i'r mater. Gall hyn gynnwys data categori arbennig.
- os ydych chi'n aelod o'r CIC, efallai y byddwn yn cadw cofnodion eich presenoldeb mewn cyfarfodydd (gan gynnwys recordiadau fideo o gyfarfodydd Microsoft Teams nes eu bod wedi'u trawsgrifio a phryd hynny maent yn cael eu dileu) a digwyddiadau eraill neu'ch cyfranogiad wrth fonitro, arolygon ar ffyrdd o weithio neu weithgareddau eraill.
- gwybodaeth dechnegol a gesglir pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan neu'n ddigidol neu mewn perthynas â deunyddiau a chyfathrebu a anfonwn atoch, sy'n cynnwys gwybodaeth am y math o ddyfais rydych chi'n ei defnyddio, eich cyfeiriad IP a'ch lleoliad daearyddol, eich system weithredu a'ch fersiwn, eich math o borwr, y cynnwys rydych chi'n ei weld a'r termau chwilio rydych chi'n ei fewnosod.
- yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni at ddibenion adborth gan gynnwys trwy gymryd rhan mewn arolygon a gynhelir gennym o bryd i'w gilydd naill ai ar ein liwt ein

hunain neu ar y cyd â phartneriaid megis Llywodraeth Cymru a darparwyr GIG eraill.
- gwybodaeth a ddarperir gennych i ni at ddibenion mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau rydym yn eu cynnal, gan gynnwys gofynion mynediad a deietegol.

Os ydym yn casglu neu'n derbyn eich gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun ein gwasanaethau gallem dderbyn gwybodaeth gan drydydd parti fel eich perthnasau neu bartïon eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu (e.e. darparwyr gofal iechyd). Bydd yr wybodaeth a gasglwn yn berthnasol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi a gallem gynnwys categorïau arbennig o ddata lle mae'n gyfreithlon i ni ei brosesu.

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth bersonol

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny.

Gan amlaf, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol i brosesu eich gwybodaeth bersonol:

Diddordeb y cyhoedd	Rydym yn gorff cyhoeddus ac rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasgau sydd er budd y cyhoedd neu'n angenrheidiol ar gyfer ein

	swyddogaethau swyddogol, ac mae i'r dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.
Rhwymedigaeth gyfreithiol	Mae hyn yn berthnasol pan fo angen i ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gydymffurfio â deddfau perthnasol a gofynion rheoleiddio.
Buddiannau cyfreithlon	Gallwn gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn hyrwyddo ein buddiannau cyfreithlon (ar yr amod nad yw'r prosesu ym mherfformiad ein tasgau fel awdurdod cyhoeddus). Rydym ond yn gwneud hyn lle rydym yn fodlon bod eich hawliau preifatrwydd yn cael eu diogelu'n foddhaol. Mae gennych hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu o'ch gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar y sail gyfreithiol hon (gweler isod).
Cydsyniad	Efallai y byddwn ni (ond fel arfer ddim) angen eich caniatâd i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl drwy gysylltu â ni (gweler isod).
Perfformio contract	Mae hyn yn berthnasol pan fydd angen i ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn cymryd camau i ymrwymo i gontract gyda chi neu gyflawni

	ein rhwymedigaethau o dan gontract gyda chi.

Pam ydyn ni'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol at y dibenion canlynol, gan ddibynnu ar y seiliau cyfreithlon penodol sydd wedi eu gosod yn y tabl isod:

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
Rheoli a gweinyddu ein perthynas â'n cleientiaid eiriolaeth ac i ddarparu gwasanaethau cyngor iddynt	Diddordeb y cyhoedd
Darparu gwasanaeth eiriolaeth a chysylltu â thrydydd parti ar ran cleientiaid wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw	Diddordeb y cyhoedd
I ddelio â chwynion gan gleientiaid eiriolaeth, aelodau neu eraill	Diddordeb y cyhoedd
Rheoli, gweinyddu a chadw cofnodion o'n perthynas ag aelodau	Rhwymedigaeth gyfreithiol Diddordeb y cyhoedd

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
Cynnal gwiriadau cefndir ynghylch darpar aelodau lle mae hynny'n briodol	Rhwymedigaeth gyfreithiol Diddordeb y cyhoedd
I gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd, Llywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny	Rhwymedigaeth gyfreithiol Diddordeb y cyhoedd
Er mwyn cysylltu â'r Bwrdd, ein corff cynnal neu'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaethau ar ein rhan	Diddordeb y cyhoedd
Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu safonau rhagorol o wasanaeth drwy ein gwiriadau archwilio, adolygu a sicrhau ansawdd ein hunain neu gan y rhai a wneir gan archwilwyr, cynghorwyr proffesiynol neu gyrff ardystio	Diddordeb y cyhoedd Buddiannau cyfreithlon
I reoli a gweinyddu ein perthynas â chyflenwyr da a gwasanaethau i ni	Perfformiad contract Buddiannau cyfreithlon
Gwneud a rheoli taliadau cyflenwyr	Perfformio contract Rhwymedigaeth gyfreithiol Buddiannau cyfreithlon

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
Fel arall, cynnal gweithrediadau dydd i ddydd ein sefydliad yn effeithlon gan gynnwys rheoli ein sefyllfa ariannol, gallu, cynllunio, cyfathrebu, llywodraethu corfforaethol ac archwilio	Rhwymedigaeth gyfreithiol Diddordeb y cyhoedd
I gynnal gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo a marchnata ein gwasanaethau gan gynnwys anfon cylchlythyrau, diweddariadau, cynnal digwyddiadau a seminarau a chadw cofnodion o'ch diddordebau yn y gweithgareddau hyn	Diddordeb y cyhoedd Cydsyniad (lle mae angen yn gyfreithiol)
Hyfforddi a datblygu ein staff a'n pobl sy'n gweithio i ni	Diddordeb y cyhoedd Perfformiad Cyswllt Rhwymedigaeth gyfreithiol
I atal ac ymateb i dwyll gwirioneddol neu botensial neu weithgareddau anghyfreithlon	Rhwymedigaeth gyfreithiol Diddordeb y cyhoedd
I ddeall yn well sut y gallwn wella ein gwasanaethau, ein cynhyrchion neu wybodaeth drwy gynnal dadansoddiad ac	Buddiannau cyfreithlon

Pam	**Y seiliau cyfreithlon perthnasol**
ymchwil i'r farchnad, gofyn i chi gymryd rhan mewn arolwg a'ch gwahodd i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws	
Mewn gwybodaeth frys i atal niwed i chi neu i berson arall	Diddordebau hanfodol
Penderfynu ar anghenion mynediad mewn perthynas ag ymwelwyr â'n safle	Rhwymedigaeth gyfreithiol

Bydd rhai o'r seiliau uchod dros brosesu yn gorgyffwrdd a gall fod sawl sail sy'n cyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn unig at y dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, oni bai ein bod yn ystyried yn rhesymol fod angen i ni ei defnyddio am reswm arall ac mae'r rheswm hwnnw'n gydnaws â'r pwrpas gwreiddiol. Os oes angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddiben digyswllt, byddwn yn eich hysbysu a byddwn yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu inni wneud hynny.

Nodwch y gallwn brosesu eich gwybodaeth bersonol heb eich gwybodaeth na'ch caniatâd, yn unol â'r rheolau uchod, lle bo hynny'n ofynnol neu a ganiateir yn ôl y gyfraith.

Hefyd, efallai y byddwn yn coladu, prosesu a rhannu adroddiadau ystadegol yn seiliedig ar gyfangiad o wybodaeth bersonol ddienw a gedwir gennym. Mae hyn yn ddefnyddiol am amryw o resymau sefydliadol.

Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif

Fel y nodwyd uchod, weithiau bydd angen i ni brosesu "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol, fel gwybodaeth am eich iechyd, lle mae hyn yn berthnasol i'r mater yr ydym yn gweithio arno i chi. Mae "categorïau arbennig" o wybodaeth bersonol yn gofyn am lefelau uwch o amddiffyniad ac mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math hwn o wybodaeth bersonol.
Byddwn yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth bersonol yn bennaf yn yr amgylchiadau canlynol:

1. Lle mae'n angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd, megis dibenion statudol a llywodraeth neu at gydraddoldeb cyfle neu driniaeth.
2. Os ydym yn credu'n rhesymol eich bod chi neu berson arall mewn perygl o niwed ac mae'r prosesu yn angenrheidiol i'ch amddiffyn chi neu nhw rhag niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu i ddiogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol.

3. Lle mae ei angen i sefydlu, arfer neu amddiffyn ein hawliau cyfreithiol neu at ddiben achos cyfreithiol y gallwn fod yn rhan ohonynt.

Yn llai cyffredin, efallai y byddwn yn prosesu'r math hwn o wybodaeth lle rydych chi eisoes wedi gwneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

Nid oes angen eich caniatâd arnom i brosesu categorïau arbennig o'ch gwybodaeth bersonol am y rhesymau a amlinellir uchod. Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, efallai y byddwn yn ceisio eich caniatâd ysgrifenedig i'n galluogi i brosesu data arbennig o sensitif. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi manylion llawn i chi am yr wybodaeth a hoffem, a'r rheswm y mae ei angen arnom, fel y gallwch ystyried yn ofalus a ydych am gydsynio.

Nid oes angen eich caniatâd arnom os mai pwrpas y prosesu yw eich amddiffyn chi neu berson arall rhag niwed neu i amddiffyn eich lles ac os ydym yn credu'n rhesymol eich bod angen gofal a chymorth, mewn perygl o niwed ac nid ydych yn gallu amddiffyn eich hun.

Gweithgareddau Hyrwyddo

Rydym yn cynnal ystod o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo ein swyddogaethau a'n gwerthoedd ac i adeiladu ar berthnasau â rhanddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Er ein bod am eich cadw'n gwbl ymwybodol o'r holl wasanaethau yr ydym yn eu cynnig, rydym yn awyddus i sicrhau nad ydym yn gyfrifol am eich anfon gyda deunydd diangen. Rydym felly yn gwneud ein gorau i deilwra'r wybodaeth a'r gwahoddedigion rydyn ni'n eu hanfon allan. I wneud hyn rydym yn storio gwybodaeth am eich diddordebau a'ch dewisiadau cyfathrebu. Efallai y byddwn hefyd yn olrhain lefel eich ymgysylltiad â ni.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol diogelu data yn cydnabod ei fod er ein budd cyfreithlon i gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am resymau o'r fath. Nid ydym yn ystyried bod angen eich caniatâd arnom i wneud hyn yn gyfreithlon, ond mae'n ofynnol i ni eich hysbysu bod gennych hawl i wrthwynebu hyn. Mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni anfon cyfathrebu marchnata drwy ddulliau electronig i ddefnyddwyr presennol ein gwasanaethau a chysylltiadau busnes heb fod angen caniatâd. Unwaith eto, mae gennych hawl i wrthwynebu'r gweithgaredd hwn os dymunwch.

Rydym yn cymryd y farn y gallwn gadw gwybodaeth at y dibenion hyn am gyfnod amhenodol, a pharhau i gyfathrebu â

chi o bryd i'w gilydd, tan ac oni bai eich bod yn gofyn i ni stopio. Pan fyddwn yn anfon gwybodaeth atoch am y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig neu'n gwahoddiadau i'n digwyddiadau, rydym bob amser yn cynnwys opsiwn "dad-danysgrifio" syml. Os cewch unrhyw anhawster wrth ei ddefnyddio neu'n dymuno cael mwy o wybodaeth am y gweithgaredd hwn, cysylltwch â ni.

Ffynonellau Gwybodaeth

Mae'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei gasglu amdanoch yn dod o ystod o ffynonellau.

- Rydych yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni'n uniongyrchol, pan fyddwch yn ymgysylltu â ni, gan gynnwys trwy ein gwefannau, dros y ffôn (gan gynnwys pan fyddwch yn gadael neges llais) neu gyfryngau digidol eraill
- Rydym yn cael gwybodaeth ychwanegol wrth gynnal archwiliadau er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol a rheoleiddiol neu pan fo gwiriadau o'r fath er budd y cyhoedd.
- Rydym yn cael a chynhyrchu gwybodaeth bersonol wrth ddarparu gwasanaethau i chi neu os nad ydych yn gleient eiriolaeth, i eraill
- Gallwn gael gwybodaeth bersonol gan y Bwrdd wrth ymateb i gwynion, neu ofyn am eu cyngor neu gymorth gyda'n swyddogaethau

- Rydym yn cael manylion cyswllt a gwybodaeth arall gan ein cysylltiadau sefydliadol a'n cyflenwyr
- Rydym yn casglu gwybodaeth o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus fel cyfeirlyfrau ffôn, cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd ac erthyglau newyddion.

Os ydych yn dymuno rhoi gwybodaeth bersonol i ni am berson arall, siaradwch â ni i sicrhau bod hawl gyfreithiol gyda chi i roi'r wybodaeth i ni ac am gyngor ynghylch a oes angen i chi hysbysu'r person hwnnw.

Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Ni fyddwch yn ddarostyngedig i benderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch yn seiliedig ar wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig, oni bai bod gennym sail gyfreithlon dros wneud hynny ac rydym wedi eich hysbysu.

Rhannu eich data personol

Gallai nifer o drydydd partïon fod â mynediad i'ch gwybodaeth bersonol neu efallai y byddwn yn ei rannu neu ei anfon atynt. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflenwyr, wedi'u rhwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd, sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a chyngor proffesiynol i ni i'n helpu i redeg ein sefydliad

- Trydydd parti sy'n ymwneud â chwrs gwasanaethau rydym yn eu darparu i gleientiaid eiriolaeth megis gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu
- Y Bwrdd, CICau a/neu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru lle bo angen i gyflawni ein swyddogaethau (er enghraifft mewn cysylltiad â chwynion gan gleientiaid eiriolaeth, aelodau neu eraill neu mewn cysylltiad ag arolygon y gallem eu cynnal o bryd i'w gilydd)
- Yn achos aelodau gyda'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru lle mae'n ofynnol iddynt gyflawni ein swyddogaethau neu roi gwybod am ofynion ac i ddarparwyr hyfforddiant at ddibenion cyrchu'r hyfforddiant sy'n ofynnol i gyflawni eu dyletswyddau fel aelod Trydydd parti sy'n ymwneud â'r broses eirioli megis Byrddau Iechyd Lleol y GIG, Ymddiriedolaethau neu ddarparwyr gofal iechyd eraill

Efallai y bydd gofyn i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol gydag awdurdodau rheoleiddio, asiantaethau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn defnyddio ymdrechion rhesymol i'ch hysbysu cyn i ni wneud hyn, oni bai ein bod wedi'n cyfyngu'n gyfreithiol rhag gwneud hynny.

Nid ydym yn gwerthu, rhentu neu fel arall yn gwneud gwybodaeth bersonol ar gael yn fasnachol i unrhyw drydydd parti.

Trosglwyddiadau Y Tu Allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Nid ydym yn anfon data personol y tu allan i'r DU fel mater rheolaidd. Nid oes unrhyw un o'r darparwyr gwasanaeth rydym yn eu defnyddio i'n helpu i redeg ein busnesau wedi'u lleoli y tu allan i'r DU.

Dewis peidio rhoi gwybodaeth bersonol

Os dewiswch beidio â rhoi data personol penodol i ni ddylech fod yn ymwybodol efallai na fyddwn yn gallu cyflawni rhai gwasanaethau neu efallai na allwn gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, efallai na fyddwn yn gallu delio â chwyn oni bai eich bod yn rhoi gwybodaeth benodol i ni.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw gwybodaeth bersonol

Ein polisi ni yw peidio â chadw gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach na sy'n angenrheidiol. Rydym wedi sefydlu prydlondeb cadw data ar gyfer yr holl wybodaeth bersonol sydd gennym yn seiliedig ar pam mae angen y wybodaeth arnom. Mae'r llinellau amser yn ystyried unrhyw rwymedigaethau statudol neu reoleiddiol sydd gennym i gadw'r wybodaeth, ein gallu i amddiffyn hawliadau cyfreithiol, ein buddiannau cyfreithlon, arfer gorau a'n galluoedd technegol presennol. Rydym wedi datblygu Polisi Cadw Data sy'n dal y wybodaeth hon. Rydym

ni'n dileu neu'n dinistrio gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'r Polisi Cadw Data.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gwneud yn ddienw eich gwybodaeth bersonol fel na all fod yn gysylltiedig â chi mwyach, ac os felly gallwn ddefnyddio gwybodaeth o'r fath heb rybudd pellach i chi.

Diogelwch

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelwch gwybodaeth ac rydym yn cymryd camau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag mynediad heb awdurdod, colled, camddefnyddio, newid neu lygredd. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig, a rheolaethol ar waith i ddiogelu a sicrhau'r wybodaeth a ddarperir gennych i ni gan gynnwys defnyddio amgryptio. Mae gennym ardystiad Cyber Essentials Plus. Os ydych yn dymuno trafod diogelwch eich gwybodaeth, cysylltwch â ni.

Hawliau Unigol

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'ch data personol sydd gennym. Nid yw pob un o'r hawliau'n berthnasol ym mhob amgylchiadau. Os ydych am arfer unrhyw un o'r hawliau, cysylltwch â ni yn y ffyrdd y manylir isod:

- Mae gennych hawl **mynediad** i'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.

- Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch eich bod yn meddwl sy'n anghywir neu'n anghyflawn.

- Mae gennych hawl i **wrthwynebu** unrhyw brosesu o'ch gwybodaeth bersonol lle rydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon i wneud hynny ac rydych yn credu bod eich hawliau a'ch buddiannau yn orbwyso ein rhai ni ac rydych yn dymuno i ni stopio. Fodd bynnag, gall fod rhesymau cyfreithiol neu ddilys eraill pam fod angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os felly, byddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol tra ein bod yn ystyried eich cais.

- Mae gennych hawl i **wrthwynebu** os ydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata ein nodau a'n hamcanion. Os nad ydych eisiau derbyn cyfathrebu gennym ni mwyach, cysylltwch â ni. Byddwn yn rhoi'r gorau i anfon cyfathrebu atoch, ond byddwn yn parhau i gadw cofnod ohonoch chi a'ch cais i beidio â chlywed gennym ni. Pe byddem yn dileu eich holl wybodaeth o'n cronfeydd data, ni fyddai gennym gofnod o'r ffaith eich bod wedi gofyn i ni

beidio â chyfathrebu â chi ac mae'n bosibl y byddwch yn dechrau derbyn cyfathrebu gennym ar ryw adeg yn y dyfodol, os cawn eich manylion o ffynhonnell wahanol.

- Mae gennych hawl i ofyn i ni **ddileu** eich gwybodaeth. Gelwir hyn hefyd yn hawl i gael ei anghofio neu i'w ddileu. Ni fyddwn bob amser yn cytuno i wneud hyn ym mhob achos oherwydd gallai fod rhesymau cyfreithiol neu ddilys eraill pam fod angen i ni gadw neu ddefnyddio eich gwybodaeth. Os felly, byddwn yn ystyried eich cais ac yn egluro pam na allwn gydymffurfio ag ef. Gallwch ofyn i ni gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol tra ein bod yn ystyried eich cais.

- Lle mae ein prosesu o'ch gwybodaeth bersonol wedi'i seilio ar eich caniatâd, mae gennych hawl i'w **dynnu'n ôl** unrhyw bryd. Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau gwneud hynny.

- Mewn amgylchiadau cyfyngedig efallai y bydd gennych hawl i gael y wybodaeth bersonol rydych wedi'i rhoi i ni mewn fformat sy'n hawdd ei hailddefnyddio ac i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol hon yn yr un fformat i sefydliadau eraill. Cysylltwch â ni i ddarganfod a yw'r hawl hwn yn berthnasol i chi.

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

Sut i Gwyno

Rhowch wybod os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym wedi defnyddio eich gwybodaeth bersonol. I roi gwybod i ni am bryder, cysylltwch â'n SLlG, Claire Starmore, Rheolwr Busnes, Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan, Tŷ Raglan, 6-8 Clôs William Brown, Parc Busnes Llantarnam, Cwmbran NP44 3AB Ffôn 01633 838 516, ebost: claire.starmore@wales.nhs.uk.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dysgwch ar eu gwefan (www.ico.org.uk) sut i adrodd pryder.

Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru diwethaf ar 21 Hydref 2022. Rydym yn cadw'r hysbysiad preifatrwydd o dan adolygiad rheolaidd a gallwn ei newid o bryd i'w gilydd trwy ddiweddaru'r dudalen hon er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ein harferion preifatrwydd. Byddem yn eich annog i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am unrhyw newidiadau yn rheolaidd.